

TELERAU AC AMODAU A RHEOLAU, RHEOLIADAU A CHOD YMDDYGIAD (GWEITHGAREDDAU WEDI'U HYFFORDDI) DGRHC

Pwysig

Mae risg cynhenid ynghlwm wrth Rafftio Dŵr Gwyn, Canwio, Caiacio, yr Antur Awyr, y Don Dan Do (Corff-fyrdio) a'r holl weithgareddau eraill sydd ar gael yn DGRhC (a lleoliadau eraill oddi ar y safle a ddefnyddir wrth ddarparu gweithgareddau). Dylech fod yn ymwybodol o'r risgiau a'u derbyn a bod yn gyfrifol am eich gweithredoedd a'ch cyfranogiad eich hun. Yn ogystal â derbyn y Telerau a'r Amodau a'r Rheolau, y Rheoliadau a'r Cod Ymddygiad y cyfeirir atynt yma fel 'Telerau', rhaid i chi hefyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol cyn i chi gymryd rhan mewn weithgareddau o dan gyfarwyddyd DGRhC, ar ffurf ymatebion i gwestiynau y cyfeirir atynt yma fel 'Pecyn Cwestiynau'. Rhaid i chi ymddwyn yn unol â phob hysbysiad, cyfarwyddyd a rhybudd sydd ar y safle neu sydd wedi'i gyfleu i chi gan gynrychiolwyr DGRhC. Os nad ydych yn siŵr a allwch chi gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghyd â'r telerau a'r amodau hyn, y Pecyn Cwestiynau neu'r Ffurflen Archebu (Ile y bo'n gymwys), gofynnwch i aelod o staff cyn i chi ymrwmo i gontract gyda ni. Gellir cysylltu â DGRhC trwy e-bostio info@ciww.com neu ffonio 029 2082 9970.

1. Diogelu Data/Preifatrwydd

- 1.1 Trwy gytuno i'r Telerau hyn, rydych yn cydsynio i Ddŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data personol er mwyn cymryd rhan yn ein gweithgareddau. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni yn info@ciww.com
- 1.2 Gall Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data i ddiogelu eich buddiannau hanfodol mewn argyfwng neu i gydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol o ran Iechyd a Diogelwch.
- 1.3 Prosesir eich holl ddata personol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn brosesu eich data personol, cyfeirirwch at bolisi preifatrwydd Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yma https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf. Gallwch hefyd weld hysbysiad preifatrwydd llawn Cyngor Caerdydd yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>.
- 1.4 Efallai y defnyddiwn Ddedu Cylch Cyfyng i fonitro ein safle at ddiobenion diogelwch ac er mwyn edrych yn ôl ar unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd ar y safle.

2. Archebu a thalu

- 2.1 Mae eich defnydd o gyfleuster DGRhC (a lleoliadau eraill oddi ar y safle a ddefnyddir wrth ddarparu gweithgareddau) a chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd DGRhC wedi'u trefnu yn destun y Telerau hyn. Lle y bo'n briodol, bydd Ffurflen Archebu wedi'i chwblhau a'i llofnodi (pan na dderbynnir taliad ymlaen llaw) ynghyd â'r Telerau hyn a'ch ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau yn cael eu hystyried yn gytundeb rhngoch chi ('y Cwsmer' y cyfeirir ato hefyd fel 'Cyfranogwr') neu'r person sy'n archebu'r weithgaredd ar eich rhan, a ninnau.
- 2.2 Os digwydd eich bod yn archebu gweithgaredd ar ran grŵp, ystyrir bod "chi" ac "eich" yn cynnwys pob aelod o'r grŵp hwnnw. Yn ogystal, rydych chi, fel yr unigolyn sy'n archebu'r weithgaredd, yn cytuno i sicrhau bod pob aelod o'r tîm wedi darllen ac yn cytuno i gydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn.
- 2.3 Mae'n rhaid derbyn taliad llawn neu Ffurflen Archebu wedi'i chwblhau cyn i chi fynd i'r weithgaredd o'ch dewis.
- 2.4 Ar ôl i chi wneud eich archeb a/neu ar ôl iddi gael ei derbyn gan DGRhC, gofynnir am y taliad llawn cyn y gellir cadarnhau eich archeb.
- 2.5 Cyn defnyddio cyfleusterau DGRhC, bydd angen i'r holl gyfranogwyr ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y Pecyn Cwestiynau. Ar ôl rhoi eich gwybodaeth, fel noddwr DGRhC, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i DGRhC os bydd iechyd meddygol unrhyw un o'ch parti, neu eich hun yn newid o'r pwynt archebu hyd at ddyddiad y gweithgaredd a drefnwyd.

3. Cansladau gennych chi

- 3.1 Ni ellir ad-dalu unrhyw archeb ar ôl ei thalu ac ni ellir ei throsglwyddo. Os dymuneh ganslo, cysylltwch â DGRhC trwy e-bostio info@ciww.com neu ffonio 02920 829970 i drafod ymhellach.

4. Cansladau gennym ni

- 4.1 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau DGRhC yn digwydd yn unol â'r amserlen. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ganslo neu aildrefnu gweithgareddau wedi'u trefnu ar unrhyw adeg heb rhybudd o ganlyniad i amodau anaddas, rhagolygon tywydd, amodau tywydd ar y pryd, neu oherwydd unrhyw ffactorau y tu hwnt i'r rheolaeth neu os ydym yn credu bod risgiau nad oes modd eu rheoli.
- 4.2 Os caiff DGRhC ei chau, gallwn ni, yn unol â'r cymal hwn ac yn ôl ein disgrisiwn ein hunain yn unig, gynnig sesiwn arall neu ran o sesiwn heb godi ragor arnoch, neu gynnig ad-daliad.
- 4.3 Os ydych yn archebu ar ran sefydliad ac yn talu trwy anfoneb, gall DGRhC, yn ôl ei disgrisiwn yn unig, ganslo unrhyw archebion nad ydynt wedi'u talu'n llawn 3 wythnos cyn dyddiad dechrau'r gweithgaredd. Os yw'r gweithgaredd wedi'i archebu lai na 3 wythnos ymlaen llaw, yna mae angen taliad llawn wrth archebu.
- 4.4 Os byddwch chi eisoes wedi dechrau eich gweithgaredd yn DGRhC pan gaiff ei chanslo neu pan gaiff y ganolfan ei chau yn unol â chymal 2.1, byddwn yn ystyried unrhyw amser rydych eisoes wedi'i dreulio yn DGRhC wrth benderfynu sut i'ch digolledu yn y ffordd orau.

5. Atebolrwydd

- 5.1 Ni fyddwn yn cyfyngu ein hatebolrwydd i chi ar gyfer unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), neu golled neu ddfrod i eiddo, y gallech ei ddioddef o ganlyniad i'n hesgeulustod.
- 5.2 Byddwn yn eich digolledu am unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), neu golled neu ddfrod i'ch eiddo y byddwch yn ei ddioddef os byddwn yn methu ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a orfodir arnom gan y gyfraith
heblaw os yw'r anaf, colled neu ddfrod yn gallu cael ei briodoli i (i) eich bai chi eich hun; (ii) trydydd parti nad yw'n gysylltiedig â'n darpariaeth o wasanaethau o dan y cytundeb hwn; neu (iii) ddigwyddiadau na allem
ni neu ein cyflenwir fod wedi'u rhagweld neu wedi achub y blaen arnynt hyd yn oed pe bawn wedi cymryd pob gofal rhesymol. Yn achos (i) os gofynnir, byddwch yn cytuno i'n digolledu am unrhyw golled neu ddfrod a achoswyd o ganlyniad i'ch gweithred neu eich esgeulustod chi

6. Offer, Cyfarwyddyd a Goruchwyliaeth

- 6.1 Os byddwch yn defnyddio eich cwch/offer eich hun ar eich weithgaredd o ddewis, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ei fod o ansawdd bodhaol ac yn addas at ddioben y gweithgaredd yr ymgemerir ag ef. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych unrhyw offer diogelwch sy'n ofynnol. Rydym yn cadw'r hawl i wneud unrhyw wiriadau ar unrhyw gwch a/neu offer unrhyw adeg ac os na fyddant yn addas at y diben, gallwn ofyn i chi roi'r gorau i'w defnyddio yn DGRhC.
- 6.2 Mae'r hyfforddiant a'r cyfarwyddwyd y byddwch yn eu derbyn yn benodol i amgylchedd DGRhC. Ni allwn warantu y bydd y sgiliau a ddysgir mewn unrhyw weithgaredd DGRhC yn drosglwyddadwy i unrhyw weithgaredd arall lle mae risgiau cynhenid gwahanol ynghlwm wrtho.
- 6.3 Wrth archebu a chymryd rhan mewn weithgaredd DGRhC, byddwch yn cytuno i ddilyn cyfarwyddyd a gorchymnion unrhyw un o hyfforddwyr gweithgareddau DGRhC

7. Cytuno i'r telerau hyn ar ran person arall.

- 7.1 Mae'n orfodol i bawb o dan 18 oed ('Dan 18 oed') bod rhiant, oedolyn priodol neu warcheidwad cyfreithiol yn cytuno i'r Telerau hyn a darparu ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau cyn cael caniatâd i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRhC.
- 7.2 Mae'n orfodol i riant/rieni, oedolyn/oedolion priodol, gwarcheidwad/gwarcheidwaid cyfreithiol neu ofalwr/ofalwyr gytuno i'r Telerau hyn ar ran unrhyw oedolyn nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun neu nad yw'n gallu deall y risgiau mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd a darparu ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau cyn cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRhC.

8. Cadw at Reolau

- 8.1 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio bob amser yn llawn ac yn brydlon â Rheolau, Rheoliadau a Chod Ymddygiad DGRhC a phob rheoliad a chyfarwyddyd diogelwch a gyhoeddir gennym ni, ein staff a/neu ein hyfforddwyr o bryd i'w gilydd.
- 8.2 Mae'n rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw beth (neu hepgor unrhyw beth) a allai achosi difrod neu golled i'n heiddo neu ein cyfleusterau neu achosi niwsans, blinder, aflonyddwch, anghyfleustra neu anaf i gyfranogwyr eraill neu unrhyw bobl eraill ar y safle.
- 8.3 Rydym yn cadw'r hawl i roi terfyn ar arhosiad/defnydd o'r Cyfleusterau gan unrhyw berson(au) rydym yn ystyried yn rhesymol ei fod wedi torri'r telerau a'r amodau hyn a gallai fod angen i'r person/au hyn adael DGRhC ar unwaith. Ni wneir unrhyw ad-daliadau os digwydd hyn, ac ni fyddwn yn derbyn atebolrwydd am unrhyw dreuliau, hawliau, colledion na chostau o ganlyniad i ddod â'r arhosiad/defnydd hwn i ben.

9. Cyffredinol

- 9.1 Caniateir bwyta ac yfed yn y ffreutur a mannau gwerthu bywd dynodedig yn unig.
- 9.2 Ni chaniateir ysmegu na chyffuriau nad ydynt ar bresgripsiwn yn unman o fewn DGRhC gan gynnwys y maes parcio. Gwrthodir mynediad i unrhyw un sydd â'r fath eitemau yn ei feddiant neu sydd o dan eu dylanwad.
- 9.3 Ni chaniateir i unrhyw bersonau yr ystyrir eu bod o dan ddylanwad diod a/neu gyffuriau (ar ddisgrisiwn staff DGRhC yn unig) ddefnyddio cyfleusterau DGRhC na chymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau. Ni roddir unrhyw ad-daliad
- 9.4 Os hoffech chi anfon unrhyw hysbysiadau neu lythyron, dylech chi eu hanfon at y cyfeiriad ac at sylw'r person perthnasol rydych chi'n dymuno cysylltu ag ef. Os nad ydych yn siŵr at bwy y dylech anfon hysbysiad neu lythyr, anfonwch ef atom yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Watkiss, Caerdydd CF11 0SY.
- 9.5 At ddioben Deddf Contractau (Hawl Trydydd Partion) 1999, ni fwriedir i'r cytundeb hwn roi hawl i unrhyw berson nad yw'n rhan ohono i orfodi unrhyw un o'i ddarpariaethau, ac nid yw'r cytundeb yn gwneud hyn.

- 9.6 Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu a'i ddehongli gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd y partition yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.
- 9.7 Rhaid i ni gael gwybod am eiddo coll o fewn 6 wythnos, oherwydd caiff unrhyw eitemau eu gwaredu ar ôl y cyfnod hwn.

10. Eich Rhwymedigaethau

Mae'n rhaid i chi sicrhau y gadewir pob rhan o'r Cyfleuster a ddefnyddir gan eich cyfranogwyr mewn ffordd lân a threfnus ac yr adroddir am bob nam i reolwyr y safle.

RHEOLAU, RHEOLIADAU A CHOD YMDDYGIAD DGRHC

Cyffredinol

1. Ni chaniateir i unrhyw un sydd dan effaith alcohol/cyffuriau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd.
2. Ni allwn roi cyngor ynghylch a ddylech gymryd rhan mewn weithgaredd ai peidio a dylech fod yn ofalus yn benodol os ydych wedi cael llawdriniaeth neu salwch diweddar, cyflwr y galon, anhwylderau gwddf, cefn neu esgyrn, pwysedd gwaed uchel neu ymlediaid neu unrhyw gyflwr tebyg arall. Os oes unrhyw amheuaeth neu bryder gennych ynghylch eich gallu i gymryd rhan, dylech drafod â'ch meddyg neu ymarferydd meddygol arall.
3. Nid ydym yn argymhell eich bod yn cymryd rhan mewn weithgareddau y DGRHC os ydych yn feichiog, ond os ydych yn gwneud hynny, eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ganlyniadau. Gweler yr wybodaeth am weithgareddau penodol i gael gwybod am ragor o gyfyngiadau.
4. **Mae'n bosib y bydd cyfyngiadau penodol ar weithgareddau unigol;** gweler isod.
5. Rhaid i chi ymddwyn yn unol â phob hysbysiad, cyfarwyddyd a rhybudd sydd ar y safle neu sydd wedi ei gyfleu i chi gan gynrychiolwyr DGRHC.
6. Cadwch eich dwylo a'ch coesau draw o rannau sy'n symud ac arhoswch yn llonydd ar y belt cludo sy'n mynd â chi i ddechrau'r cwrs dŵr gwyn.
7. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd DGRHC arnoch cyn defnyddio unrhyw gwch/offer.
8. Bydd rhaid i hyfforddwyr/sefydliadau nad ydynt o DGRHC gwblhau "ffurflen llogi'r cyfleuster" a "rhestr wirio'r cyfleuster" cyn defnyddio'r cyfleuster.
9. Mae Staff DGRHC yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw un adael y safle, heb ad-daliad.
10. Mae'n rhaid i bob un sy'n cymryd rhan gwblhau'r ffurflenni perthnasol cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRHC.
11. Yn dibynnu ar ba weithgaredd rydych wedi'i archebu, gall eich weithgaredd gynnwys nofio mewn dŵr cythryblus sy'n symud yn gyflym.

Ton Dan Do

RHYBUDD! Mae'r llawr yn hynod o lithrig. PEIDIWCH Â cheisio cerdded ar arwyneb y reid. Dim ond ar ôl dod i stop llwyr ar y rhwyll ddraen las dywyll y cewch sefyll i gerdded a gadael.

2. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr OpenSurf archwilio'r ardal Ton Dan Do trwy edrych arno a bod yn fodlon ynghylch eu gallu personol a chorfforol i syrffio.

3. **Peidiwch** â chymryd rhan os yw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- **Wedi cael llawdriniaeth neu wedi bod yn sâl yn ddiweddar**
- **Cyflwr ar y galon**
- **Anhwylderau gwddf, cefn neu esgyrn.**
- **Pwysau gwaed uchel neu ymlediaid**
- **Beichiog**

4. Dylid gwisgo dillad addas ar gyfer y gweithgaredd bob amser. Ni chaniateir gemwaith, hetiau, esgidiau o unrhyw fath, ewinedd hir, sbectol na gogleu, nac unrhyw eitem rydd arall ar y reidiau oherwydd perygl anafiadau.

5. Peidiwch â neidio i mewn i'r reid na mynd iddi ar wib; peidiwch â rhoi eich pwysau ar y droed flaen - cwmpo a wnewch chi! (OpenSurf yn unig)

6. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr OpenSurf allu achub eu hunain os ydyn nhw'n cwmpo. Os ydych chi'n cwmpo, peidiwch â dal i afael yn eich bwrdd. Gollyngwch y bwrdd yn syth, gorchuddiwch eich pen a chadwch eich coesau a'ch breichiau'n dynn at eich corff. Paratowch at y gwrthdrawiad, eich traed yn gyntaf.

7. Dim ond syrffio unigol ar droed a ganiateir (OpenSurf yn unig). Dim ond gyda byrddau corff y caniateir syrffio pâr.

8. Mae hon yn reid galed iawn. Mae'n rhaid i bob defnyddiwr fod yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun mewn dŵr gwyllt sy'n symud yn gyflym.

9. Mae'n rhaid i chi fod o leiaf 107cm o daldra er mwyn defnyddio bwrdd corff ac o leiaf 132cm er mwyn syrffio ar eich traed (OpenSurf yn unig)

Antur Awyr/Wal Ddringo

1. Mae'n rhaid clymu gwallt a gosod eitemau rhydd (e.e. llinynnau clymu) yn sownd y tu mewn i'ch dillad.

2. Mae'n rhaid tynnu pob gemwaith a gwagio pocedi. (Os na allwch dynnu'ch modrwyau, dylech roi tâp drostynt er mwyn lleihau risg.)

3. DIM OND hyfforddwyr fydd yn addasu offer diogelwch ar ôl eu gwisgo.

4. Ni chaniateir mwy nag UN person ar bob elfen, a DAU ar bob plattform ar yr un adeg.

5. Mae'n rhaid i'r Gwifrau Gwib a'r plattform glanio fod yn glir cyn i chi adael y plattform cychwynnol.

6. Daliwch y cortyn ar y Wifren Wib.

7. Symudwch i un cyfeiriad yn unig ar hyd y cwrs.

8. Yr uchafswm pwysau a ganiateir yw 18 stôn (115kg) y person.

9. Y taldra gofynnol yw 132cm ond gall plant 107cm+ gymryd rhan os oes oedolyn gyda nhw yn y sesiwn.

10. Rhaid i bob plentyn 6 oed neu iau fod yng nghwmni oedolyn yn sesiwn yr Antur Awyr.

11. Gall 1 oedolyn (18 oed neu hŷn) fod gyda hyd at 2 blentyn.

Trwy gyntuno i'r telerau hyn, rydych yn cytuno i'r pwyntiau a nodir ym Mholisi Preifatwydd DGRHC i'w weld ar ein gwefan yn https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf

Trwy gyntuno i'r telerau hyn, rydych yn cytuno i'r pwyntiau a nodir yn yr Wybodaeth am Ansawdd Dŵr Afon Elái ar ein gwefan yn https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/GWYBODAETH_AM_ANSAWDD_DWR_AFON_ELAI_DGRHC.pdf